**CÔR TRE'R TRAETH**
**Pwyllgor Blynyddol**
Gorffennaf 22, 2012
Ysgol Uwchradd Tre'r Traeth

1. **Ymddiheuriadau**
   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan David Morris, Louise Murphy, Meic Tomos, Jan Prydderch, Mari Huws.

2. **Cofnodion Pwyllgor Blynyddol 06/6/11**
   Darllenwyd cofnodion Pwyllgor Blynyddol 2011 gan Amranwen Llwyd. Cynigiwyd eu bod yn gywir gan Jane Davies a chafodd ei heilio gan Edward Bull.

3. **Adroddiad y Trysorydd**

   Rhoddodd Francis Thomas adroddiad o sefyllfa ariannol y côr a diolchodd Amranwen iddo am ei waith caled.

4. **Adroddiad Gerald Howells, y Cyfarwyddwr Cerdd**

   i) Mae'r sylwadau wnaethpwyd yn y cyfarfod y llynedd yn dal yn berthnasol er bod pethau yn gwella. Mae Gerald yn dal i geisio darganfod pa mor gyflym y gall aelodau'r côr ddysgu darnau newydd a pha fathau o gerddoriaeth maen nhw'n eu hoffi.

   ii) Yn fras, y cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf ydy cyngerdd ar ddiwedd pob tymor, un cyngerdd mawreddog, gweithdai, teithiau ym Mhrydain ac o bosibl dramor gan fod hynny yn rhoi hwb i hyder yr aelodau.

   iii) Diolchodd Gerald i Amranwen a'r pwyllgor am eu gwaith diflino ar ei ran ef a'r côr ac i Dafydd Griffiths am ei gyfraniad amhrisiadwy ar y piano yn ymarferion y côr. Yn olaf, diolchodd i aelodau'r côr am eu hymdrech a'u hymroddiad. Bu'n flwyddyn lwyddiannus iawn.

5. **Adroddiad y Cadeirydd**

   i) Dechreuodd Amranwen trwy ddweud iddi fod yn flwyddyn dda iawn. Rhai o'r uchafbwyntiau oedd tri chyngerdd gwych, gweithdy ardderchog a bod yn rhan o ddathliadau Gŵyl Ddewi.

   i) Roedd y Cyngerdd Nadolig yn Eglwys Tegid yn cynnwys cerddoriaeth Nadoligaidd traddodiadol a modern gyda'r gynulleidfa yn cymryd rhan. Bu hyn yn llwyddiannus iawn a chododd y cyngerdd £1220. Aelodau'r côr oedd wedi paratoi'r bwyd a diolch i Rhian Wills a'i thîm am drefnu nid yn unig hyn ond gweithgareddau eraill y côr trwy'r flwyddyn hefyd.

   iii) Nid codi arian oedd diben cyngerdd yr haf. Mewn gwirionedd bu'n rhaid i'r côr gyfrannu tuag at ei gynnal. Mae codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o

ganu corawl yn bwysig iawn i'r côr a dywedodd Amranwen ein bod wedi gwneud hynny. Ychwanegodd ein bod, fel mae ein henw yn awgrymu, yn gôr cymunedol ac roedd y cyngerdd ar gyfer aelodau o'r gymuned sy'n aml yn cael eu hanghofio – yr henoed. Fe fwynheuon nhw eu hunain yn fawr iawn.

iv) Cynhaliwyd Cyngerdd y gwanwyn yn Ysgol y Wern i godi arian i'r Ganolfan Greadigol, yr elusen sy'n rhoi cyfle i blant anabl wneud crefftau creadigol. Roedd yn gyngerdd hwyliog a chymerodd côr yr ysgol ran. Rhaid diolch iddynt am hyn a diolch i'r ysgol am wneud yr holl drefniadau. Codwyd y swm anhygoel o £1400 i'r elusen.

v) Diolchodd Amranwen i bawb a ddaeth i ganu yn y Ffair Haf. Doedd y siwtiau du ddim yn addas iawn ar gyfer y tywydd chwilboeth! Roedd y rhaglen yn neuadd y dref yn amrywiol iawn – deuawdau, unawdau, llefaru a chaneuon gan y côr.

vi) Diolchodd i aelodau'r côr ac i Dafydd Griffiths am eu ffyddlondeb a'u gwaith caled.

vii) Eleni, am y tro cyntaf, roedd gennym 'Focs Awgrymiadau' a gallai unrhyw aelod o'r côr roi ei awgrym ynddo. Dywedodd Amranwen fod Gerald wedi llwyddo i asesu'r math o gerddoriaeth sy'n apelio at aelodau'r côr ac mae'r pwyllgor wedi ystyried yr awgrymiadau eraill fel tripiau, pwy sy'n talu am y gerddoriaeth, a chreu tudalen i'r côr ar Facebook sydd nawr yng ngofal Katie Davies.

**6.** Nos Fawrth, Medi 3ydd y bydd ymarferion y côr yn ailddechrau wedi seibiant mis Awst. Edrychir ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall.

**7.** Cynhelir y cyfarfod nesaf o Bwyllgor y Côr nos Fawrth, Medi 10fed am 7.30 o'r gloch yn Ysgol Uwchradd Tre'r Traeth, fel arfer.